O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2233 (Cy. 237)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontnewydd-ar-Wy i Langurig, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed	*8 Medi 2011*
Yn dod i rym	*19 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Medi 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontnewydd-ar-Wy i Langurig, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 19 Medi 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd rhwng Pontnewydd-ar-Wy a Llangurig yn Sir Powys a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.